

Hysbysiad Preifatrwydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cynllun Wcráin

Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch chi? Eich hawliau a'n rhwymedigaethau i chi.

Sut rydyn ni'n defnyddio data personol

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) yn casglu, yn cadw, yn defnyddio ac yn datgelu gwybodaeth am bobl (eu data personol), y camau rydyn ni'n eu cymryd i sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu, ac mae hefyd yn disgrifio'r hawliau sydd gan unigolion o ran eu data personol y mae CBSP yn ei drin.

Mae defnyddio a datgelu data personol yn cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth. Felly mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn trin yr holl ddata personol yn unol â'r ddeddfwriaeth hon.

Mae CBSP yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif ac yn cymryd gofal mawr i sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn briodol er mwyn sicrhau a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion yn y Cyngor.

Dylai'r wybodaeth hon gael ei darllen ar y cyd â Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor sydd ar gael ar y wefan.

Pam rydyn ni'n trin eich data personol?

Mae CBSP wedi ymrwymo i dderbyn pobl o Wcráin drwy gynllun Cartrefi i'r Wcráin Llywodraeth y DU. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Cyngor wedi gorfod newid yn gyflym sut rydyn ni'n gweithio i barhau i ddarparu'r gwasanaeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch. Byddwn ni bob amser yn dilyn canllawiau a chyngor gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrth wneud unrhyw newidiadau i sut rydyn ni'n darparu'r cymorth sydd ei angen arnoch.

Pa fath/dosbarthiadau o ddata personol ydyn ni'n eu trin?

Er mwyn cyflawni'r dibenion sy'n cael eu disgrifio uchod, gall y Cyngor gasglu, defnyddio a datgelu data personol gan gynnwys y canlynol:

- Manylion personol
- Manylion y teulu
- Gwybodaeth fisa / pasbort
- Gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw bryderon diogelu, gwiriadau diogelwch, a sesiadau cartref
- Manylion cyswllt gan gynnwys cyfeiriad, cyfeiriad e-bost
- Manylion ariannol gan gynnwys manylion banc i brosesu taliadau misol.
- Manylion addysg a chyflogaeth
- Manylion iechyd corfforol neu feddyliol
- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Troseddau (gan gynnwys troseddau honedig)
- Credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg

- Achosion, canlyniadau a dedfrydau troseddol

Mae angen y wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn ei lle a bod pobl yn cael eu cefnogi'n briodol.

Bydd CBSP ond yn defnyddio data personol priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni diben neu ddibenion penodol. Gallai data personol fod yn wybodaeth sy'n cael ei gadw ar gyfrifiadur, mewn cofnod papur h.y. ffeil, fel delweddau, ond gall hefyd gynnwys mathau eraill o wybodaeth a gaiff ei chadw yn electronig.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'ch gwybodaeth bersonol?

Byddwn ni'n cynnal asesiad i weld pa gymorth y gallwn ei roi ar waith i chi a'ch teulu, gan gynnwys unrhyw gymorth ariannol.

Bydd cofnod yn cael ei gadw o'r cymorth y byddwn yn ei ddarparu i chi ac efallai y byddwn yn cynnal adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod y cynllun yn gweithio i chi, neu a oes angen i ni newid unrhyw beth i'ch helpu.

Bydd hyn yn cynnwys cynlluniau cymorth ar ôl cyrraedd yn cynnwys sefydliadau allanol fel gwasanaethau iechyd a chymorth.

Byddwn ni hefyd yn defnyddio eich gwybodaeth i gynnal unrhyw asesiadau/gwiriadau perthnasol i'ch cynorthwyo.

Gyda phwy fyddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth?

Mae'n bosibl y caiff eich gwybodaeth ei rhannu ag adrannau mewnol y Cyngor a phartneriaid allanol yn dibynnu ar y cymorth sydd ei angen arnoch chi. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Addysg
- Gwasanaethau Ariannol
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cyflogaeth
- Adnoddau Dynol
- Tai / Digartrefedd
- Darparwr Gwasanaeth Cefnogi (Tai Taf)
- Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru
- Asiantaethau'r Llywodraeth (Llywodraeth y DU a Chymru)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Gwasanaethau Iechyd)

- Heddlu De Cymru
- Ysgolion CBSP
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Awdurdodau Lleol eraill
- Sefydliadau Gwirfoddol Lleol a grwpiau ffydd
- Y Groes Goch Brydeinig

Sut ydyn ni'n trin data personol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion sy'n cael eu disgrifio yn yr Hysbysiad hwn, bydd CBSP yn trin data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Yn benodol, byddwn ni'n sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn deg ac yn gyfreithlon gyda chyfiawnhad priodol. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw ddata personol a gaiff ei ddefnyddio gennym ni neu ar ein rhan o'r ansawdd uchaf o ran cywirdeb, perthnasedd, digonolrwydd a diffyg gormodedd, ei fod yn cael ei gadw mor gyfredol ag sy'n ofynnol, yn cael ei ddiogelu'n briodol, ac yn cael ei adolygu, ei gadw a'i ddinistrio'n ddiogel pan nad oes ei angen mwyach.

Beth yw'r sail gyfreithiol dros ddefnyddio'r wybodaeth hon?

Erthygl 6(1)(c) o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) – i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â darparu tai, addysg, cymorth budd-daliadau ac ati.

Erthygl 6(1)(e) – cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu er mwyn i'n swyddogaethau swyddogol ddarparu'r lefel briodol o gymorth i bob teulu sy'n cael eu hadleoli yn CBSP.

Sut ydyn ni'n sicrhau diogelwch data personol?

Mae CBSP yn cymryd diogelwch yr holl ddata personol sydd o dan ein rheolaeth o ddifrif. Byddwn ni'n sicrhau bod mesurau polisi, hyfforddiant, technegol a gweithdrefnol priodol ar waith, gan gynnwys archwilio a monitro cywirdeb, i ddiogelu ein systemau gwybodaeth llaw ac electronig rhag colli a chamddefnyddio data, a dim ond caniatáu mynediad iddynt pan fo rheswm dilys dros wneud hynny, ac yna dan ganllawiau llym o ran pa ddefnydd y gellir ei wneud o unrhyw ddata personol sydd ynddynt. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael eu rheoli a'u gwella'n barhaus i sicrhau diogelwch cyfoes.

Beth yw eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol sy'n cael ei drin gan CBSP?

Mae gan unigolion hawliau amrywiol o dan y ddeddfwriaeth gan gynnwys:

Hawl mynediad

Gallwch gael copi, yn amodol ar eithriadau, o'ch data personol a gaiff ei gadw gan y Cyngor. Mae copi o'r ffurflen gais ar gael o:

<https://www.bridgend.gov.uk/media/2332/data-subject-access-form.doc>

Mae gennych hawl hefyd i gael cadarnhad a yw data amdanoch yn cael ei brosesu gan y Cyngor ai peidio. Lle mae hynny'n wir, mae gennych hawl i'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar eithriadau:

- Dibenion a sail gyfreithiol ar gyfer y prosesu
- Y categorïau o ddata personol dan sylw
- Y derbynwyr y datgelwyd y data personol iddynt
- Y cyfnod y rhagwelir y caiff y data personol ei gadw
- Cyfathrebu'r data personol sy'n cael ei brosesu ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael am ei darddiad

**Noder bod 'prosesu' yn golygu gweithrediad neu set o weithrediadau a gyflawnir ar ddata personol megis casglu, recordio, trefnu, strwythuro, storio, addasu, newid, dileu, cyfyngu, adalw.*

Mae'n bosibl y bydd angen prawf o bwy ydych chi ac unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen i ddod o hyd i'r wybodaeth cyn y gall y Cyngor gydymffurfio â'ch cais.

Dylid gwneud unrhyw gais am y wybodaeth uchod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd y Cyngor yn ymateb o fewn mis.

Cywiro data

Gallwch ofyn i'r Cyngor gywiro data personol anghywir sy'n ymwneud â chi. Os yw'r data'n anghywir oherwydd ei fod yn anghyflawn, mae'n rhaid i'r Cyngor ei gwblhau os ydych yn gofyn iddynt am wneud hynny.

Dylid gwneud cais ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data ac anfonir ymateb o fewn mis.

Dileu neu gyfyngu data personol

Gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu eich data neu gyfyngu unrhyw brosesu ar eich data, yn amodol ar eithriadau.

Dylid gwneud pob cais i'r Swyddog Diogelu Data. Bydd y Cyngor wedyn yn rhoi gwybod i chi a yw'r cais wedi'i ganiatáu ac os yw wedi'i wrthod, y rhesymau dros ei wrthod.

Hawl i beidio bod yn wrthrych gwneud penderfyniadau awtomatig

Mae gennych yr hawl, yn amodol ar eithriadau, i beidio â bod yn destun penderfyniad pan fydd yn seiliedig ar brosesu awtomataidd a'i fod yn cael effaith gyfreithiol neu effaith sylweddol debyg arnoch chi. Mae gennych hawl i fynegi eich safbwynt a chael esboniad gan y Cyngor ar ei benderfyniad a'i herio.

Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r hawl hon yn berthnasol i bob penderfyniad gan fod yna eithriadau, er enghraifft awdurdodiad gan y gyfraith, cyflawni contract rydych chi'n barti iddo.

Am ba mor hir mae CBSP yn cadw eich data personol?

Mae CBSP yn cadw data personol cyhyd ag y mae angen at y diben neu'r dibenion penodol y'i cedwir ar eu cyfer.

Cysylltu â Ni

Gall unrhyw unigolyn sydd â phryderon am y ffordd mae CBSP yn trin eu data personol gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn y Cyngor fel islaw:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfa Wybodaeth, Swyddfeydd
Dinesig, Stryd yr Angel,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.
E-bost foi@bridgend.gov.uk
Ffôn 01656 643565

Gallwch hefyd godi pryderon gyda Chomisiynydd Gwybodaeth Cymru. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH
Rhif Ffôn: 02920 678400 Ffacs: 02920 678399
E-bost: wales@ico.org.uk
Gwefan: <https://ico.org.uk/>